



Creu Cadwyn Fwyd Pwll



Bwriad Dysgu

- Dysgu creu cadwyni bwyd a deall bod planhigion a chreaduriaid mewn cynefin yn gyd-ddibynnol.

Sgiliau Cwricwlwm Cenedlaethol

Gwyddoniaeth Cyd-ddibyniaeth organebau byw yn y ddau amgylchedd hynny a sut cânt eu cynrychioli fel cadwynau bwyd.

ADCDF Yr amgylchedd naturiol.

Amlinelliad o'r Gweithgaredd


- * Adolygu'r cysyniad o gadwyn fwyd.
- * Trafod cyd-ddibyniaeth creaduriaid sy'n byw mewn pwll.
- * Dysgu'r termau *ysydd* a *chynhyrchydd*.
- * Dosbarthu'r creaduriaid yn grwpiau.
- * Creu cadwyni bwyd gan ddefnyddio cardiau llun.
- * Dechrau deall *gwe fwyd*.

Adnoddau

Lluniau o greaduriaid pwll.

Mae gan www.microscopy-uk.org.uk/ becyn adnabod bywyd pwll gwych - yn arbennig ar gyfer adnabod pethau bach a microsgopig.

Ar www.harcourtschool.com/activity/food/pond_activity.html/ mae gweithgaredd ar-lein i greu gwe fwyd pwll.



Creu Gwe Fwyd Pwll

Amlinelliad o'r Wers

Beth gawsoch chi i ginio neithiwr?

- Torri atebion y plant i lawr yn gynhwysion unigol a'u hysgrifennu ar y bwrdd.
- Cyflwyno'r termau *cynhyrchydd* ac *ysydd*.

Pa rai o'r bwydydd sy'n dod o blanhigion?
Pa rai sy'n dod o anifeiliaid?


- Trafod o ble mae'r bwyd yn dod.
- Esbonio bod cynhyrchwyr yn blanhigion - organebau sy'n gwneud eu bwyd eu hunain drwy ffotosynthesis, a bod ysyddion yn anifeiliaid - organebau sy'n bwyta cynhyrchwyr neu ysyddion eraill.
- Gellir torri'r grŵp o ysyddion i lawr ymhellach – esbonio'r termau llysysydd, cigysydd, hollysydd.
- Dosbarthu cardiau anifeiliaid - gofyn i'r plant eu trefnu mewn grwpiau yn ôl lliwiau. Ysgrifennu'r côd lliw ar y bwrdd - gwyrdd = cynhyrchwyr, melyn = llysysyddion, coch = cigysyddion, oren = hollysyddion.

Pa anifeiliaid sy'n bwyta planhigion? Pa rai sy'n bwyta anifeiliaid eraill?

- Pan fydd y plant wedi gorffen dosbarthu'r lluniau yn ôl lliw, gofyn iddynt chwilio am gadwyn fwyd drwy ddefnyddio'r cardiau.
- Pan fyddant wedi dod o hyd i gadwyn fwyd - gallent ei nodi ar bapur.

Wedi'i addasu o Mysciencebox.org

Sut mae'r anifeiliaid a'r planhigion yn y pwll yn dibynnu ar ei gilydd?



Pysgodyn dŵr croyw yw'r penhwyad. Mae'n bwyta pysgod llai, pryfed ac amffibiaid megis madfallod dŵr neu frogaod.



Mae'r Crëyr Glas yn bwyta pysgod, brogaod a rhywogaethau dŵr eraill.



Cramennog bach yw Chwanner y Dŵr. Maent i'w gweld mewn dŵr croyw. Maent yn bwyta algâu bach a phlanhigion microsgopig yn bennaf.



Gwelir Malwoden y Dŵr mewn dŵr sy'n llifo'n araf neu sy'n llonydd. Maent yn bwyta algâu a deunydd organig.



Pryfed y dŵr yw Gwybed Mai. Maent yn bwyta algâu, er bod rhai rhywogaethau yn ysglyfaethus.



Mae penbyliaid yn rhan o gylch bywyd amffibiaid. Mae'r rhan fwyaf o benbyliaid yn llysysyddion ac yn bwyta algâu a phlanhigion.



Pryfyn bach gwyrdd yw'r Cychwr Cefnwyn. Mae ganddo lygaid mawr cochaid. Maent yn bwyta penbyliaid, pysgod bach a phryfed dŵr.



Grŵp o organebau bach yw algâu. Maent yn ffotosynthetig, yn debyg i blanhigion tir.



Planhigyn dŵr croyw yw'r dyfrllys.



Mae'r Gwesyn Deheuol yn bwyta pryfed megis gwybed a bydd hefyd yn ymosod ar ysglyfaeth fwy.



Mae larfâu gwas y neidr yn byw yn y dŵr hyd at 5 mlynedd. Maent yn gigysyddion ac yn bwyta llawer o anifeiliaid dŵr megis



Mae Brogaod yn bwyta amrywiaeth fawr o anifeiliaid gan gynnwys pryfed, corynnod, mwydod, gwllithod a phenbyliaid



Planhigyn anghyffredin iawn ei olwg yw Milwr y Dŵr. Mae ganddo ddail cul ar ffurf cleddyf a blodau lliw hufen. Mae'n anghyffredin yn y gwyllt.



Planhigion sy'n arnofio ar y dŵr yw'r Cyrnddail. Mae'n blanhigyn defnyddiol i larfâu corynnod dŵr, chwilod y dŵr gweision neidr a chreaduriaid bach eraill y dŵr.



Pysgodyn heb gennau yw'r grothell er bod gan rai ohonynt blatiau esgrynog caled. Maent yn bwyta cramenogion bach a larfâu pysgod.



Mae'r llyngyren ledog yn byw ar waelod y pwll. Er ei bod yn fach iawn, mae'n gigysydd ac yn bwyta pryfed bach a chramenogion.



Chwilen fawr ddu yw'r Chwilen Blymio. Maent i'w gweld mewn pyllau â digon o lystyfiant. Maent yn ysglyfaethwyr ac yn bwyta penbyliaid a physgod bach



Mae'r Corryn Dŵr yn byw ar bryfed.